# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Springfield Day Nurseries Ltd @ Ashbourne House**

**Meithrinfa Ddydd Ashbourne House**
**6-8**
**Woodland Road East**
**Bae Colwyn**
**LL29 7DT**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/12/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae meithrinfa Springfield@Ashbourne House wedi'i chofrestru i ddarparu gofal i 88 o blant o dan 12 oed ac mae wedi'i lleoli yn nhref Bae Colwyn, o fewn pellter cerdded i amwynderau lleol. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos rhwng 07.30 a 18.00, heblaw am wyliau banc. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd i blant o dan Gynnig Gofal Plant a chynllun Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru.

Suzanne a David Edwards yw'r unigolion cyfrifol, ac maent wedi penodi Alexandra Wynne fel y person dros dro â chyfrifoldeb am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, a Sarah Stocks fel eu rheolwr gweithrediadau. Er nad yw'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, mae'r staff yn ceisio cyflwyno'r iaith yng ngweithgareddau dyddiol y plant.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | **Da** |
| Gofal a Datblygiad | **Rhagorol** |
| Yr Amgylchedd | **Da** |
| Arwain a Rheoli | **Rhagorol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn datblygu'n dda; maent yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig sy'n mwynhau dewis yr hyn y maent am ei wneud o amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn gymwys er mwyn eu helpu i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn gymwys, yn brofiadol ac yn rhoi sylw mawr i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn wirioneddol garedig yn eu ffordd o weithio ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson ac yn llwyddiannus. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn rhoi'r flaenoriaeth i ddarparu dewis o brofiadau chwarae a dysgu diddorol ac eang i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau amrywiaeth o weithgareddau dysgu diddorol ar gyfer y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth eithriadol o glir ar gyfer y gwasanaeth ac ymdeimlad cryf o ddiben. Maent yn cynnal a hybu newidiadau sylweddol a'u rhoi ar waith, sy'n gwella canlyniadau i'r plant. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu partneriaethau effeithiol a llwyddiannus â'r rhieni a'r gymuned ehangach er budd y plant.

## 2. Gwelliannau

- Mae'r staff wedi mynd ati'n frwd ac yn llwyddiannus i weithredu gweithgareddau awyr agored â phwyslais newydd a chofnodion datblygu er budd y plant;
- mae ethos chwarae a dysgu'r cyfnod sylfaen wedi cael ei ymestyn i blant yr ystafell ganol;
- mae drysau wedi'u gosod ar doiledau'r plant ar y llawr canol i gynnal eu preifatrwydd;
- mae'r ardal chwarae awyr agored wedi'i gwneud yn fwy diogel byth er mwyn sicrhau diogelwch y plant;
- mae'r gegin wedi'i hymestyn ac mae offer newydd wedi'u prynu er mwyn darparu bwyd ar gyfer holl feithrinfeydd y gwasanaeth;
- llwyddwyd i sicrhau cyllid i ddatblygu’r ardal awyr agored;
- mae'r staff yn parhau i gael hyfforddiant a mynd ar gyrsiau er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau ym maes y blynyddoedd cynnar.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wella arferion ym mhob maes ac felly nid oedd angen i ni wneud unrhyw ofynion nac argymhellion.

## 1. Llesiant Da

### Crynodeb

Mae'r plant yn lleisio eu barn yn hyderus a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff, ac maent yn cydweithio'n dda. Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diddorol, sy'n eu galluogi i feithrin amrywiaeth o sgiliau'n llwyddiannus.

### Ein canfyddiadau

Roedd gan y plant lais cryf; gwrandewir arnynt a chaiff eu dewisiadau eu parchu. Roedd y plant yn cael digon o amser i fwyta eu bwyd, ac i benderfynu pryd roeddent wedi cael digon ac os oeddent am gael diod rhwng bwyta. Roedd y staff yn ymateb yn gadarnhaol i ystumiau a pharablu'r plant iau a phan, er enghraifft, roeddent yn cyfleu eu bod wedi blino, cawsant eu siglo'n araf i gysgu.

Roedd y plant yn setlo'n dda, yn deall y drefn ddyddiol ac yn teimlo'n ddiogel. Er enghraifft, roedd y plant yn sefyll mewn rhes yn hapus cyn cerdded yn ddiogel i lawr y grisiau i fynd allan i chwarae. Roeddent yn dod atom yn hyderus i ofyn beth roeddem yn ei wneud a dywedasant wrthym eu bod yn hoffi mynd i'r ysgol ond bod yn well ganddynt ddod i Springfield am eu bod yn cael tynnu lluniau. Roedd y plant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd a phan oedd angen cysur arnynt, roeddent yn hapus i gael eu cysuro a chael sicrwydd gan aelod o'r staff, cyn ymuno â'u ffrindiau i chwarae. Roedd gan y plant ymdeimlad cynnes o berthyn am fod eu gwaith celf lliwgar yn cael ei arddangos ac roeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i adnoddau o'u dewis.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn deall y rheolau ymddygiad. Er enghraifft, roeddent yn rhannu eitemau chwarae ac yn dweud os gwelwch yn dda a diolch heb anogaeth. Roeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn helpu i dacluso teganau pan ofynnwyd iddynt wneud hynny gan wenu wrth gael eu canmol am eu cyflawniadau. Roedd y plant yn gwneud ffrindiau o oedran ifanc, gyda'r plant bach yn yr ystafell fabanod yn gwenu ac yn chwerthin gyda'i gilydd wrth iddynt fwyta'u cinio.

Roedd y plant yn llawn cymhelliant, yn cymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn ymgolli ynddynt. Er enghraifft, gwnaethant ganolbwyntio'n dda ar ysgrifennu llythyrau at Siôn Corn, gan siarad am y lliwiau roeddent yn eu defnyddio a'r anrheg yr hoffent ei chael gan Siôn Corn. Roedd y plant yn llawn cyffro wrth fynd allan i chwarae ac yn dewis yr hyn roeddent am ei wneud yn frwd. Er enghraifft, cymysgodd rhai fwd a dŵr i wneud cacennau yn y gegin fwd, rhedodd rhai heibio i ni gan weiddi 'we like running' ac arbrofodd eraill â rhidyllau a chynwysyddion o wahanol faint yn yr hambwrdd archwilio chwarae tywod.

Roedd amrywiaeth o weithgareddau ar gael i'r plant a oedd yn eu galluogi i feithrin sgiliau gwahanol a gwneud pethau drostynt eu hunain. Roedd y rhai a oedd yn ddigon hen yn

defnyddio'r cyfleusterau toiled ar eu pen eu hunain ac yn gwneud eu gorau i wisgo'u cotiau cyn mynd allan i chwarae. O oedran ifanc, roedd y plant yn llwyddo i fwydo'u hunain adeg prydau ac yn cael eu hydradu drwy yfed dŵr pan oeddent yn sychedig. Roedd y plant yn chwerthin ac yn cael hwyl wrth chwarae ac yn piffian chwerthin wrth greu stori ddychmygus am y 'Grinch' drygionus adeg y Nadolig.

## 2. Gofal a Datblygiad **Rhagorol**

### Crynodeb

Mae'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn gymwys er mwyn eu helpu i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn gymwys, yn brofiadol ac yn rhoi sylw mawr i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn wirioneddol garedig yn eu ffordd o weithio ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson ac yn llwyddiannus. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn rhoi'r flaenoriaeth i ddarparu dewis o brofiadau chwarae a dysgu diddorol ac eang i'r plant.

### Ein canfyddiadau

Dywedodd y staff wrthym yn hyderus am y gweithdrefnau y dylid eu dilyn pe bai ganddynt bryderon am blentyn, ac roeddent yn cadw'n fanwl at bolisïau'r gwasanaeth wrth sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn iach. Er enghraifft, roedd y staff yn sicrhau bod y holl ardaloedd a ddefnyddir yn gwbl lân, yn dilyn canllawiau cyfredol i reoli a dileu risgiau posibl o groes-heintio ac yn rhoi arferion diogel ar waith yn gyson. Roedd ganddynt y wybodaeth i helpu plentyn gyda mân anafiadau gan eu bod yn meddu ar y cymwysterau cymorth cyntaf gofynnol. Roedd y staff yn adolygu cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modd gweithredu ar unwaith ar unrhyw risgiau a nodwyd. Roedd y staff yn dilyn polisi a gweithdrefnau’r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhoi i'r plant mewn ffordd ddiogel. Roedd y staff yn sicrhau bod pob unigolyn yn gwybod y gweithdrefnau i'w dilyn mewn argyfwng drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Roedd cofnodion presenoldeb dyddiol manwl gywir yn golygu bod modd cyfrif am bob unigolyn yn gyflym. Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus; roedd y bwydlenni dyddiol yn unol â menter Tiny Tums ac yn cael eu hadolygu gan ddietegydd cymunedol yr awdurdod lleol, ac roedd y staff a oedd yn gofalu am y plant yn rhoi gwerth mawr ar sicrhau bod y plant yn treulio amser allan yn yr awyr iach yn rheolaidd.

Roedd y staff yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson; roeddent yn dathlu cyflawniadau'r plan ar bob cyfle ac yn eu canmol am ddefnyddio moesau da. Roeddent yn deall sut i gael y gorau o'r plant ac yn hyrwyddo hunan-barch da yn eu trefn ddyddiol. Er enghraifft, roedd y plant yn cael eu henwebu i fod yn helpwr y dydd ac yn cael eu gwobrwyo am wneud rhywbeth yn dda neu ryngweithio'n dda drwy gael eu gwneud yn 'Seren' yr wythnos. Roedd y staff yn mynd ati'n ystyrlon i ymgorffori gweithgareddau wythnosol a oedd yn canolbwyntio ar gael y plant i fod yn garedig i'w gilydd. Er enghraifft, drwy 'eiriau caredig', 'dwylo caredig' a 'traed caredig', a oedd yn helpu'r plant i gael dealltwriaeth bellach o reolau ymddygiad derbyniol. Roedd y staff yn ddiamheuol o garedig o ran eu ffordd o weithio ac roeddent yn creu amgylchedd hapus lle roedd y plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Roeddent yn dilyn polisi'r gwasanaeth wrth reoli rhyngweithio cadarnhaol; gan siarad â'r plant â pharch ac mewn iaith roedd y plant yn ei deall.

Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn sicrhau bod unrhyw ofynion deietegol neu arferion cysgu'n cael eu dilyn yn gyson. Roedd y staff yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer chwarae a dysgu'r plant, a dywedasant wrthym yn frwd am y ffordd roedd y gweithgareddau awyr agored â phwyslais newydd nid yn unig yn llwyddo i wella canlyniadau'r plant ond hefyd yn gwella eu gwybodaeth nhw o ddatblygiad plant. Er enghraifft, roedd y gwaith o gynllunio gweithgareddau a chofnodion datblygiad y plant wedi gwella'n sylweddol, a oedd yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer chwarae a dysgu pob plentyn yn y dyfodol. Roedd y staff yn sicrhau bod y rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad eu plentyn, gan roi adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd a phwrpasol am y gweithgareddau roedd eu plentyn wedi'u mwynhau'n benodol a'r cynnydd roedd eu plentyn yn ei wneud. Roedd y staff yn frwdfrydig yn eu rolau ac yn llwyr ymroddedig i sicrhau bod y plant yn ffynnu drwy gael dewis eang o weithgareddau ysgogol er mwyn hybu eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, roedd y staff yn ymgysylltu'n effeithiol â'r plant i greu llong ofod allan o ffoil cegin a blociau adeiladu mawr yn yr awyr agored. Roedd y plant wedi dysgu sut i wehyddu gan ddefnyddio moch coed, ac roedd eu hadnabyddiaeth o liwiau wedi datblygu'n arbennig o dda yn dilyn y digwyddiadau ar y themâu coelcerth a lliw a gynhaliwyd ym mis Tachwedd.

## 3. Yr Amgylchedd Da

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn canolbwyntio ar y plentyn, ac yn rhoi i'r plant amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu a dysgu. Caiff gweithdrefnau effeithiol eu dilyn er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel, gydag adnoddau sy'n lân, o ansawdd da ac yn addas i oedrannau'r plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel; roedd yr ardaloedd awyr agored wedi'u hamgáu, a gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr, sy'n golygu bod yr arweinwyr yn sicrhau na all unrhyw unigolion diawdurdod fynd i mewn i'r safle. Roedd yr arweinwyr yn rhoi llawer o sylw i ddiogelwch, yn y gwasanaeth ac ar deithiau i ffwrdd. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal gan swyddog iechyd a diogelwch y gwasanaeth, a oedd yn adolygu asesiadau risg er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posibl yn cael eu rheoli a'u dileu lle y bo'n bosibl.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn mwynhau eu hamser mewn amgylchedd a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd yr arweinwyr wedi llunio rotâu glanhau yr oedd y staff yn eu dilyn yn ddiwyd, ac roedd yr ystafelloedd chwarae wedi'u gosod yn ofalus er mwyn hybu dysgu'r plant. Er enghraifft, roedd bocsys adnoddau wedi'u labelu ar lefel isel yn hybu annibyniaeth y plant ac roedd arddangosfeydd dwyieithog, Cymraeg a Saesneg, yn galluogi'r plant i ddysgu yn y ddwy iaith. Roedd y goeden Nadolig yn ardal y dderbynfa ac arddangosfeydd lliwgar Nadoligaidd y plant ar y waliau yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt, ac yn creu amgylchedd â naws groesawgar. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal yn eu hystafelloedd sylfaenol, gyda grisiau ar bob llawr yn rhannu'r ystafelloedd i ddwy lefel. Roedd giatiau diogelwch neu bartisiwn pren ar draws y grisiau yn golygu bod y plant yn ddiogel a bod modd gofalu am wahanol grwpiau oedran yn eu hadrannau eu hunain ar bob lefel. Roedd pob ardal yn rhoi lle i'r plant fod yn egnïol a dysgu gwahanol sgiliau, dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr amgylchedd cyfan yn helpu'r plant i fod yn annibynnol ac yn hybu eu datblygiad a'u dysgu yn llwyddiannus.

Roedd yr arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod yr adnoddau yn amrywiol, yn lân, o ansawdd da ac yn annog y plant i ddysgu a datblygu. Er enghraifft, roedd adnoddau yn yr awyr agored yn hyrwyddo chwilfrydedd naturiol y plant i ddysgu am bryfed yn y gwesty pryfed a chwarae blêr yn y gegin fwd. Roedd yr arweinwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant fod yn greadigol. Er enghraifft, roedd y babanod wedi defnyddio'u dwylo a'u traed â phaent arnynt i baentio lluniau â thema'r Nadolig ac roedd bocsys cardfwrdd wedi'u paentio i greu pentref i'r Grinch fyw ynddo.

Roedd y teganau a chyfarpar ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn addas i oedran y plant a'u camau datblygu. Er enghraifft, roedd cotiau a matresi ar gael ar gyfer cysgu ac roedd dodrefn

cyfforddus ym mhob ystafell yn gwneud i'r ystafelloedd deimlo'n gartrefol ac yn gyfarwydd i'r plant. Roedd toiledau a basnau golchi dwylo lefel isel yn hybu annibyniaeth y plant.

## 4. Arwain a Rheoli **Rhagorol**

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth eithriadol o glir ar gyfer y gwasanaeth ac ymdeimlad cryf o ddiben. Maent yn cynnal a hybu gwelliannau sylweddol a'u rhoi ar waith, sy'n gwella canlyniadau i'r plant. Mae'r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol ac yn sefydlu tîm o staff llwyddiannus a threfnus iawn sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae partneriaethau cryf ac effeithiol â rhieni a'r gymuned ehangach er budd y plant.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn rhoi datganiad o ddiben i'r rhieni, a oedd yn nodi nodau ac amcanion y gwasanaeth. Roedd y cofnodion gofynnol yn cael eu cynnal yn gyson ac yn bodloni'r rheoliadau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol ac yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Roeddent yn gosod disgwyliadau uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r arferion gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal. Er enghraifft, drwy drefnu hyfforddiant clir ac effeithiol i'r staff ar y ffordd orau o roi gweithgareddau awyr agored a chofnodion dablygu'r plant ar waith, roedd y staff yn gwybod yn union beth y disgwylid ganddynt. Dywedasant wrthym fod yr hyfforddiant wedi eu cymell i wella canlyniadau i'r plant, gan ddweud bod y gweithdrefnau newydd yn 'amazing', 'working well' a'u bod wedi gweld y manteision cadarnhaol i'r plant yn barod. Roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod y staff yn gymwysedig, yn brofiadol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

Roedd yr arweinwyr a'r staff yn adnabod eu gwasanaeth yn eithriadol o dda ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso parhaus yn llwyddiannus, a oedd wedi'i ymgorffori mewn ymarfer beunyddiol. Er enghraifft, gwnaeth y staff werthuso'r gweithgareddau chwarae awyr agored newydd ac asesu'r hyn a oedd yn llwyddiannus a'r hyn y gallai fod angen ei wella. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn fwy na bodlon ar y gofal roedd eu plant yn ei gael; roedd y cyfathrebu'n dda ac roedd y gweithdrefnau sefydlu yn gadarnhaol. Roedd yr arweinwyr wedi llwyddo i gael grant i wella'r ardal chwarae awyr agored ymhellach, a oedd yn dangos unwaith eto eu bod yn rhoi llawer o sylw i chwarae a dysgu awyr agored y plant. Mae'r arweinwyr yn gwneud gwelliannau sylweddol bob blwyddyn sydd, yn eu tro, yn arwain at ganlyniadau llwyddiannus i'r plant.

Roedd yr arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod y staff yn addas a'u bod yn cael yr hyfforddiant gofynnol pan wnaethant ddechrau. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys y wybodaeth ofynnol i ddangos eu bod yn addas, gan gynnwys tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd yr arweinwyr yn gosod targedau realistig i'w hunain ac i'r staff. Er enghraifft, roedd y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau blynyddol, lle y byddent yn cytuno ar gynlluniau ar gyfer datblygiad personol ac yn rhoi sylw i faterion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo'n

falch o wisgo eu gwisg 'Springfield', ei bod yn hawdd mynd at yr arweinwyr a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol, yn unol â'u cryfderau, er mwyn diwallu anghenion y plant. Er enghraifft, roedd y tîm staff cyfan, a oedd yn cynnwys rheolwr gweithrediadau, person â chyfrifoldeb, y staff sy'n gofalu am y plant, y cogydd, staff adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch a gyflogwyd ar gyfer eu rolau penodol, yn dangos cymaint o bwys roedd yr arweinwyr yn ei roi ar ddiogelwch a llesiant y plant.

Roedd yr arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'r rhieni a'r gymuned. Roedd hyn yn cyfrannu'n fuddiol at godi safonau a hybu llesiant y plant.  Er enghraifft, roedd y rhieni a'r teuluoedd yn cael eu gwahodd i ddathlu diwrnod graddio eu plentyn ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd digwyddiadau llwyddiannus ac ystyrlon yn cael eu trefnu, a oedd o fudd i'r plant ac yn gwella eu dealltwriaeth o'r byd o'u hamgylch. Er enghraifft, roedd y plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r henoed mewn cartref preswyl, mynychu sesiwn amser stori yn y llyfrgell bob wythnos ac roeddent hefyd wedi mynychu gwasanaeth wrth y senotaff lleol ar Sul y Cofio. Roedd y plant wedi mwynhau ymweliadau gan weithwyr proffesiynol fel swyddogion yr heddlu, ymladdwyr tân a staff y bad achub, a oedd yn dangos bod yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddeall pwysigrwydd y ffordd roedd pobl yn eu helpu yn eu cymuned. Roedd yr arweinwyr wrthi'n trefnu i blant hŷn o ysgol leol ddod i ddarllen i'r plant yn y gwasanaeth a fyddai, ar ôl ei sefydlu, yn cryfhau'r gydberthynas â'r ysgol er budd y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i wella arferion ym mhob maes ac felly nid oedd angen i ni wneud unrhyw ofynion nac argymhellion.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth hwn yn ddirybudd ar 03 Rhagfyr 2019 rhwng 11.30 a 16.00 a chynhaliwyd arolygiad lle rhoddwyd rhybudd i archwilio'r gwaith papur ar 04 Rhagfyr rhwng 14.35 a 16.20.

Gwnaethom y canlynol:

- ystyried adroddiad arolygu blaenorol y gwasanaeth a'r wybodaeth a ddaeth i law ers eu harolygiad diwethaf;
- archwilio sampl o gofnodion, dogfennaeth a pholisïau, a oedd yn cynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, y polisïau amddiffyn plant, cwynion a rheoli ymddygiad;
- craffu ar ffeiliau pedwar aelod o'r staff a ffeiliau tri phlentyn;
- edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddiwyd gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- arsylwi ar y plant a'r gofal a gawsant;
- siarad â'r plant, un rhiant a'r staff;
- rhoi adborth manwl i'r rheolwr gweithrediadau a'r person â chyfrifoldeb ar ein canfyddiadau
- 

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Suzanne Edwards**<br>**David Edwards** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Alexandra Wynne** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **88** |
| **Ystod oedran y plant** | **0-12 oed** |
| **Oriau agor** | **07.30 – 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **02 Tachwedd 2017** |
| **Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn** | **03 a 04 Rhagfyr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.**<br>**Y rheswm dros hyn yw bod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg ei hiaith yn bennaf ac, ar hyn o bryd, nid yw'r darparwr yn bwriadu cynnig gwasanaeth Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/02/2020